



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**WE ARE
MACMILLAN.
CANCER SUPPORT**

**NI YW
MACMILLAN.
CYMORTH CANCER**



**GIG
CYMRU
NHS
WALES**

Arolwg o Brofiad Cleifion Canser yng Nghymru 2013

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

**Cyhoeddwyd Ionawr
2014**

Cynhaliwyd yr Arolwg o Brofiad Cleifion
Canser yng Nghymru gan Quality Health ar
ran Llywodraeth Cymru a Chymorth Canser
Macmillan



Cyflwyniad

Cynlluniwyd yr Arolwg o Brofiad Cleifion Canser yng Nghymru 2013 (CPES) i fonitro cynnydd cenedlaethol o ran gofal cancer. Mae'r arolwg yn cyd-fynd â 'Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser i'r GIG 2016' Llywodraeth Cymru ac mae'n mesur cynnydd o safbwynt cleifion yn erbyn amcanion y Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser. Mae'r CPES yn darparu gwybodaeth y gellir ei defnyddio i lywio gwelliannau ansawdd lleol, gan Fyrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd a chan gynllunwyr, ac mae'n gyson ag amcanion polisi'r GIG yng Nghymru.

Crynodeb Gweithredol

Dengys y canlyniadau ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan y pwyntiau allweddol canlynol:

• Gweithiwr allweddol/Nyrsys Clinigol Arbenigol:

- Sgôr uchel iawn ar gyfer cleifion a chanddynt Nyrs Glinigol Arbenigol (91%).
- Sgoriau uchel iawn ar gyfer y Nyrs Glinigol Arbenigol (NGA) yn gwrando'n astud (91%) ac ar gyfer cael atebion dealladwy i gwestiynau a ofynnwyd gan y claf (90%); sgôr ychydig yn is ar gyfer gallu cysylltu â'r NGA (78%).
- Roedd gan lai o gleifion Weithiwr Allweddol (75%) na NGA (91%), ond mae nifer y cleifion a chanddynt Weithiwr Allweddol yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan.
- Sgoriau uchel ar gyfer gallu cysylltu â Gweithwyr Allweddol (88%), Gweithwyr Allweddol yn gwrando'n astud (90%), ac ar gyfer cael atebion dealladwy i gwestiynau a ofynnwyd (84%).

• Gwybodaeth a Chymorth:

- Rhoddodd cleifion sgoriau uchel am beth fyddai'n cael ei wneud yn ystod profion (86%) ond sgoriau ychydig yn is ar gyfer gwybodaeth am ddiben profion (78%), gwybodaeth ysgrifenedig am brofion (79%) a chael canlyniadau profion (76%).
- Dywedodd 86% o gleifion eu bod wedi cael gwybod bod ganddynt ganser mewn ffordd sensitif.
- Dywedodd 38% o gleifion na chawsant wybodaeth ysgrifenedig am y math o ganser a oedd ganddynt neu nodwyd ganddynt ei bod yn anodd ei deall.
- Cafodd 85% o gleifion ddewis triniaeth, lle roedd hyn yn bosibl.
- Cafodd 77% o gleifion wybodaeth ysgrifenedig am sgil-ffeithiau'r driniaeth ond nifer llawer llai (58%) a gafodd wybodaeth am unrhyw sgil-ffeithiau hirdymor posibl.
- Dim ond 31% o gleifion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a ddywedodd iddynt gael gwybodaeth am yr help ariannol neu'r budd-daliadau y gallai fod hawl ganddynt i'w cael.
- Dywedodd llai o gleifion (25%) fod cymryd rhan mewn gwaith ymchwil cancer wedi cael ei drafod gyda hwy o gymharu â 29% yng Nghymru gyfan.
- Rhoddwyd gwybodaeth cyn y llawdriniaeth am yr hyn a fyddai'n cael ei wneud (rhoddwyd esboniad i 86% o gleifion) yn amlach na gwybodaeth am hynt y llawdriniaeth mewn gwirionedd (rhoddwyd esboniad i 78% o gleifion).
- Rhoddwyd gwybodaeth ysgrifenedig glir i 82% o gleifion am yr hyn y dylent ei wneud a'r hyn na ddylent ei wneud ar ôl gadael yr ysbyty.

Crynodeb Gweithredol (parhad)

- **Asesu a Chynllunio gofal:**
 - Cafodd 61% o gleifion gyfle i drafod eu hanghenion a'u pryderon am gynllun gofal - ond dim ond 22% a gafodd gynnig cynllun gofal ysgrifenedig.
- **Adeg trosglwyddo: o driniaeth yn yr ysbyty i ofal canser yn y gymuned**
 - Dywedodd 39% o gleifion na chafodd eu teuluoedd/pobl a oedd yn agos atynt ddigon o wybodaeth am sut i ofalu amdanynt ar ôl iddynt adael yr ysbyty neu mai dim ond i ryw raddau yr oedd hyn yn wir.
 - Dywedodd 39% o gleifion yr oedd angen help arnynt na chawsant ddigon o help gan wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar ôl iddynt adael yr ysbyty neu mai dim ond i ryw raddau yr oedd hyn yn wir.
 - Dywedodd 94% o gleifion fod eu meddyg teulu wedi cael digon o wybodaeth am eu cyflwr a'r driniaeth roeddent wedi'i chael; ond dywedodd nifer llawer llai o gleifion bod eu meddygfa wedi gwneud popeth a allai i'w helpu tra roeddent yn cael triniaeth (66%).
- **Amrywiad rhwng sgoriau'r Bwrdd Iechyd a sgoriau Cymru gyfan:**
 - Mae'r sgoriau a roddwyd gan gleifion Aneurin Bevan yn sylweddol uwch yn ystadegol na'r ffigur ar gyfer Cymru gyfan ar gyfer cael enw Gweithiwr Allweddol; bod yn ffyddiog yn y meddygon a oedd yn eu trin ac ymddiried ynddynt.
 - Mae'r sgoriau a roddwyd gan gleifion yn Aneurin Bevan yn sylweddol waeth yn ystadegol na ffigur Cymru gyfan ar gyfer staff yn rhoi gwybodaeth am yr help ariannol neu'r budd-daliadau a allai fod ar gael; bod digon o nyrsys ar ddyletswydd i ofalu am y claf bob amser/bron bob amser; a chael digon o breifatrwydd wrth gael eu harchwilio neu eu trin.
- **Amrywiad rhwng Ysbytai o fewn y Bwrdd:**
 - Mae'r sgoriau a roddwyd gan gleifion yn Ysbyty Nevill Hall yn sylweddol uwch yn ystadegol na ffigur Cymru gyfan ar gyfer 6 cwestiwn, ac yn is ar gyfer dim ond 1 cwestiwn.
 - Mae'r sgoriau a roddwyd gan gleifion yn Ysbyty Brenhinol Gwent yn sylweddol uwch yn ystadegol na ffigur Cymru gyfan ar gyfer 2 gwestiwn, ac yn is ar gyfer 4 cwestiwn.
- **Amrywiad o ran sgoriau rhwng grwpiau tiwmor:**
 - Mae llawer o amrywiynau mewn sgoriau rhwng grwpiau tiwmor unigol a sgôr Cymru gyfan ar gyfer y grŵp tiwmor hwnnw. Mae rhai sgoriau yn is na chyfartaledd Cymru gyfan yng ngrwpiau tiwmor Colorefol /Gastroberfeddol Is ac Wrolegol.
 - O ran cwestiynau pwysig ar fynediad i gymorth NGA a chymorth Gweithiwr Allweddol, mae bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer NCA yn y grŵp tiwmor Gynaecolegol ac mae bwlch yn y ddarpariaeth Gweithiwr Allweddol yng ngrwpiau tiwmor Gynaecolegol.

Arolwg o Brofiad Cleifion Canser yng Nghymru 2013
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Crynodeb Gweithredol (parhad)

• **Cryfderau Allweddol a nodwyd ar lefel Bwrdd:**

- Dywedodd 80% o gleifion fod eu hiechyd wedi aros yr un fath neu wedi gwella tra'n aros ar gyfer eu hapwyntiad cyntaf.
- Rhoddwyd gwybodaeth am beth fyddai'n cael ei wneud yn ystod profion i 86% o gleifion.
- Dywedodd 86% o gleifion eu bod wedi cael gwybod bod ganddynt ganser mewn ffordd sensitif.
- Rhoddwyd dewis triniaeth i'r rhan fwyaf o gleifion (83%), lle roedd hyn yn bosibl.
- Rhoddwyd enw Nyrs Glinigol Arbenigol a fyddai'n gyfrifol am eu gofal i gyfran uchel iawn o gleifion (91%), dywedodd 91% fod yr NGA wedi gwrando'n astud arnynt ac wedi rhoi atebion dealladwy i gwestiynau (90%). Dywedwyd hefyd fod Gweithwyr Allweddol, lle roedd y claf wedi cael ei hysbysu am weithiwr o'r fath, wedi gwrando'n astud (90%) a rhoi atebion dealladwy i gwestiynau (84%).
- Aeth cyfran uchel o gleifion y gofynnwyd iddynt ynghylch cymryd rhan mewn gwaith ymchwil canser ymlaen i gymryd rhan (70%).
 - Dywedodd cyfran uchel o gleifion eu bod wedi cael esboniad cyflawn o'r hyn a fyddai'n cael ei wneud o ran y llawdriniaeth roeddent yn ei chael (86%).
 - Roedd rhai sgoriau ar gyfer meddygon yn uchel gyda 91% o gleifion yn ffyddiog yn eu gallu ac yn ymddiried ynddynt, ac 88% yn dweud nad oedd meddygon yn siarad fel petaent ddim yno o gwbl.
 - Dywedodd 87% o gleifion nad oedd nyrsys yn siarad fel petaent ddim yno o gwbl.
 - Nid oedd 91% o gleifion o'r farn bod gwybodaeth yn cael ei chelu rhagddynt, a dywedodd 86% na chawsant wybodaeth groes.
 - Cyflawnwyd sgoriau uchel o dros 80% ar gyfer preifatrwydd.
 - Dywedodd 85% o gleifion bod staff wedi gwneud popeth a allent i reoli eu poen, yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty.
 - Dywedodd 81% o gleifion eu bod wedi cael eu trin â pharch ac urddas bob amser.
 - Cafodd 82% a gafodd wybod yr hyn y dylent ei wneud/na ddylent ei wneud ar ôl gadael yr ysbyty.
 - Cafodd niferoedd uchel iawn o gleifion (90%) wybod pwy y dylent gysylltu â hwy os byddai ganddynt bryderon, ar ôl gadael yr ysbyty.
 - Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion bod staff wedi gwneud popeth a allent i reoli sgil-ffeithiau cemotherapi (87%).
 - Dywedodd 97% o gleifion fod gan y meddygon y nodiadau a'r canlyniadau cywir wrth law pan gawsant eu gweld fel cleifion allanol.
 - Dywedodd 94% o gleifion fod eu meddyg teulu wedi cael digon o wybodaeth am eu cyflwr a'r driniaeth a gawsant yn yr ysbyty.
 - Roedd y sgoriau cyffredinol yn uchel iawn, gyda'r rhan fwyaf o'r cleifion yn dweud eu bod wedi cael swm priodol o wybodaeth (84%); na chawsant eu trin fel set o symptomau canser ond y cawsant eu trin fel person cyfan (82%); a bod eu gofal yn ardderchog neu'n dda iawn (84%).

Crynodeb Gweithredol (parhad)

- **Gwendidau allweddol a nodwyd:**

- Ni chafodd 38% o gleifion gwybodaeth ysgrifenedig ddealladwy am y math o ganser a oedd ganddynt neu ni chawsant unrhyw wybodaeth o gwbl.
- Dim ond 58% o gleifion a gafodd wybodaeth am unrhyw sgil-effeithiau hirdymor posibl.
- Cafodd llai o gleifion (75%) fanylion am eu Gweithiwr Allweddol o gymharu â 91% a gafodd wybod am NGA.
- Dim ond 61% gafodd gyfle i drafod eu hanghenion a'u pryderon a dim ond 22% o gleifion a gafodd gynnig cynllun gofal ysgrifenedig.
- Ni roddwyd gwybodaeth i 27% o gleifion am gymorth emosiynol (e.e. drwy grwpiau cymorth) ond byddent wedi hoffi cael gwybodaeth o'r fath.
- Dim ond lleiafrif o gleifion a gafodd wybodaeth am yr help ariannol neu'r budd-daliadau y gallai fod hawl ganddynt i'w cael (31%).
- Dim ond 51% o gleifion a ddywedodd eu bod wedi gallu siarad â'u meddyg mor aml ag y byddent wedi ei hoffi yn ystod triniaeth; a dywedodd 58% o gleifion fod teuluoedd/gofalwyr yn gallu siarad â'r meddyg pan oedd angen gwneud hynny.
- Dim ond 69% o gleifion a oedd yn ffyddiog ac yn ymddiried yn y nyrsys ar y ward a dim ond 54% a oedd o'r farn bod digon o nyrsys ar y ward i ofalu am gleifion bob amser.
- Dim ond 58% o gleifion a ddywedodd y gofynnwyd iddynt pa enw roeddent yn ei ffafrio.
- Dywedodd 19% o gleifion na chawsant y cyfle i drafod unrhyw bryderon neu ofnau a oedd ganddynt yn yr ysbyty neu mai dim ond rhywfaint o'r amser y digwyddai hynny.
- Dim ond 61% o gleifion a ddywedodd fod yr holl wybodaeth am sut i ofalu am y claf ar ôl iddo adael yr ysbyty wedi'i rhoi i'r teulu.
- Dim ond 61% o gleifion a ddywedodd eu bod wedi cael digon o gymorth gan y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol ar ôl gadael yr ysbyty.

Cefndir

Byrddau ac Ymddiriedolaethau a gymerodd ran

Cymerodd pob un o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol a'r un Ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau canser ran yn yr arolwg, gan gynrychioli'r holl ddarparwyr gofal canser i oedolion yng Nghymru. Mae un Bwrdd Iechyd (Addysgu Powys) yn darparu gofal cefnogol a lliniarol i gleifion ond caiff ei breswylwyr eu trin mewn ysbytai sydd wedi'u lleoli o fewn Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru a Lloegr ar gyfer cam aciwt eu triniaeth. Mae'r adroddiadau ar lefel Bwrdd, y mae hwn yn un ohonynt, yn adrodd ar gyfanswm o 23 o ysbytai ac ar bob grŵp tiwmor lle mae digon o ddata i allu gwneud hynny.

Cleifion a ddewiswyd i gymryd rhan

Roedd yr arolwg yn cynnwys pob oedolyn (16 oed a throsodd) a oedd wedi cael diagnosis sylfaenol o ganser a dderbyniwyd i un o ysbytai'r GIG yng Nghymru fel claf mewnol neu fel claf achos dydd ac a ryddhawyd o'r ysbyty rhwng 1af Mehefin 2012 a 31ain Mawrth 2013. Cynlluniwyd y cyfnod cymhwysedd at ddibenion casglu data er mwyn sicrhau bod digon o ddata ar gael gan gleifion i'w dadansoddi mewn perthynas â'r rhan fwyaf o amrywiannau.

Lluniwyd rhestrau o gleifion cymwys ar gyfer yr arolwg gan ddefnyddio systemau gweinyddu cleifion Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau; y meini prawf ar gyfer cynnwys oedd bod gan y claf god C00-99 (ac eithrio C44 a C84) neu D05 o fewn y Dosbarthiad Clefydau Rhyngwladol (ICD10). Roedd y mathau o gleifion canser yn cynnwys nifer sylweddol â chanserau mwy anghyffredin yn ogystal â chleifion â'r pedwar prif grŵp canser – h.y. y fron, prostad, yr ysgyfaint a cholorefrol/gastroberfeddol is.

Archwiliwyd samplau'r Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau yn ofalus i sicrhau nad oedd unrhyw achosion o ddyblygu a chafodd rhestrau cleifion hefyd eu dad-ddyblygu ar lefel genedlaethol er mwyn sicrhau na fyddai cleifion yn derbyn mwy nag un copi o'r holiadur.

Archwiliwyd samplau'r Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau yn ofalus am gleifion a oedd wedi marw drwy'r system DBS o leiaf deirgwaith yn ystod y gwaith maes, er mwyn sicrhau bod nifer y cleifion a oedd wedi marw yn y samplau mor isel â phosibl. Quality Health oedd yn gyfrifol am ymgymryd â'r broses hon a gwnaed hynny mewn modd effeithiol iawn.

Dull yr arolwg

Anfonwyd holiaduron drwy'r post i gyfeiriadau cartref cleifion ar ôl iddynt adael yr ysbyty. Argraffwyd yr holiaduron yn Gymraeg ac yn Saesneg. Anfonwyd hyd at ddau lythyr atgoffa at gleifion nad oeddent wedi ymateb. Cynhwyswyd amlen radbost er mwyn iddynt anfon eu hymatebion. Roedd llinell ffôn am ddim y gallai cleifion ei ffonio i ofyn cwestiynau, cwblhau'r holiadur ar lafar neu gael gwasanaeth cyfieithu.

Cyfradd ymateb

Cafodd cyfanswm o 10,945 o gleifion a oedd wedi cael triniaeth am ganser rhwng mis Mehefin 2012 a mis Mawrth 2013 eu cynnwys yn y sampl cenedlaethol ar gyfer yr Arolwg o Brofiad Cleifion Canser yng Nghymru. Trefnwyd y cleifion hyn yn 13 o grwpiau cancer gwahanol.

Anfonwyd holiadur at 407 o gleifion cymwys o'r Bwrdd hwn, a dychwelwyd 274 o holiaduron wedi'u cwblhau. Mae hyn yn gyfradd ymateb o 68% ar ôl rhoi cyfrif am gleifion a oedd wedi marw a holiaduron a ddychwelwyd heb eu derbyn. Y gyfradd ymateb genedlaethol ar gyfer Cymru gyfan oedd 69% (7352 o ymatebwyr).

Sgoriau canran

Crynowyd y cwestiynau yn yr arolwg cancer fel canran y cleifion a gofnododd brofiad cadarnhaol. Er enghraifft, "canran y cleifion a gafodd esboniad cyflawn o'u profion diagnostig" a "chanran y cleifion a ddywedodd NA wnaeth y nyrsys siarad fel petai'r cleifion ddim yno o gwbl". Ni chaiff ymatebion niwtral, fel "Ddim yn gwybod, methu â chofio" ac "Nid oedd angen esboniad arnaf" eu cynnwys yn yr enwadur wrth gyfrifo'r sgôr. Mae hyn yn sicrhau mai dim ond yr ymatebion hynny gan gleifion yr oedd angen gwybodaeth neu ofal penodol arnynt a gaiff eu cynnwys wrth asesu ymatebion ac y caiff unrhyw gymariaethau a wneir rhwng Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau a rhwng ysbytai eu gwneud ar sail 'tebyg at ei debyg'.

Po uchaf y sgôr, y gorau yw perfformiad y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth. Mae rhai sgoriau yn cynrychioli perfformiad ar draws llwybr sy'n cynnwys gofal sylfaenol a gofal cymunedol yn ogystal â gofal aciwt ond yn cynrychioli rhannau pwysig o brofiad y claf ar hyd y llwybr gofal.

Nifer isel o ymatebwyr a data nas adroddwyd

Mae gan rai Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau, a rhai ysbytai o fewn Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau, nifer gymharol fach o gleifion cancer, felly gall cyfanswm nifer yr ymatebwyr i'r arolwg fod yn isel er gwaethaf y gyfradd ymateb uchel. Cwblhawyd adroddiadau ar gyfer y Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau ac ysbytai hyn yn y ffordd arferol, ond mae angen bod yn fwy gofalus wrth ymdrin â'r canlyniadau sy'n deillio ohonynt. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod nifer isel yr ymatebwyr yn y Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau ac ysbytai hyn yn deillio'n syml o'r nifer isel o gleifion cancer a gaiff eu trin.

Gofynnwyd i'r cleifion gwblhau'r holiadur gan gyfeirio at y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth a enwyd ar y llythyr esboniadol. Yn y Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau hynny lle nad oedd uned radiotherapi neu gemotherapi, lle y nododd cleifion eu bod wedi cael y triniaethau hyn er gwaethaf y cyfarwyddiadau hyn, diystyrwyd yr ymatebion er mwyn sicrhau mai dim ond ymatebion sy'n berthnasol i'r Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth dan sylw y cyflwynir adroddiad arnynt.


Ymron pob Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth ac ysbyty, roedd grwpiau tiwmor lle roedd nifer yr ymatebwyr yn llai nag 20; mae hyn yn arbennig o wir yn achos grwpiau tiwmor sy'n cynrychioli canserau mwy anghyffredin. Lle mae nifer yr ymatebwyr o fewn grŵp tiwmor penodol yn llai nag 20, rydym wedi defnyddio'r arfer o adael y gell berthnasol yn wag. Eglurir hyn yn fanylach yn y cyflwyniad i'r tablau grwpiau tiwmor yn yr adroddiad hwn. Lle mae'r grŵp ymateb yn llai na 30, mae angen bod yn fwy gofalus wrth ddehongli'r data.

Siartiau meincnod

Caiff sgoriau canran eu harddangos ar siartiau bar meincnod yn yr adran ganlynol. Mae pob bar glas yn cynrychioli'r amrediad canlyniadau ar draws pob Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth ar gyfer un cwestiwn.

Mae'r cylch du yn y bar yn cynrychioli sgôr y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth hon. Dengys y llinell ar y naill ochr o'r cylch y cyfwng hyder 95% (sef y swm o ansicrwydd sy'n gysylltiedig â sgôr y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth). Noda'r llinell fertigol yn yr ardal las y sgôr cymedrig cenedlaethol ar gyfer y cwestiwn hwnnw ar gyfer pob ymatebwr yng Nghymru

Arranging home support



Mae'r tabl islaw pob siart meincnodi yn dangos y canlynol: yng ngholofn un, sgôr y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth ar gyfer pob cwestiwn; mae'r ail golofn yn dangos sgôr y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth uchaf ar gyfer y cwestiwn hwn ac mae'r drydedd golofn yn dangos nifer yr ymatebwyr a roddodd yr ateb hwn ar gyfer y cwestiwn hwn. **Lle na nodir unrhyw ddata na chyfwng hyder ar gyfer y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth ar y siart amrediad nac yn y tablau ar gyfer cwestiwn penodol, nid oes digon o ddata (llai nag 20 o ymatebwyr) i gyfiawnhau eu dangos.** Bydd cyfyngau hyder yn ehangach lle bo nifer yr ymatebwyr yn llai.

Rhagor o wybodaeth

Ceir manylion llawn dull yr arolwg yn Adroddiad Cenedlaethol Arolwg o Brofiad Cleifion Cancer yng Nghymru 2013, a fydd ar gael ar www.quality-health.co.uk o ddiwedd mis Ionawr 2014. Mae rhagor o fanylion am ddull datblygu'r arolwg, y fethodoleg y cytunwyd arni'n genedlaethol a phroffion gwybyddol hefyd ar gael yn www.quality-health.co.uk.

Pwy a ymatebodd i'r arolwg yn y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth yma?

Ymatebodd 274 o gleifion i'r arolwg o'r Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth. Mae'r tablau ar y dudalen hon a'r dudalen nesaf yn dangos nifer y cleifion o bob Ysbyty, nifer y cleifion o bob grŵp tiwmor a dosbarthiad oedran a rhyw y cleifion hyn.

Ymatebwyr fesul Ysbyty

Ysbyty	Nifer yr ymatebwyr
Ysbyty Nevill Hall	57
Ysbyty Brenhinol Gwent	212
Ysbyty Ystrad Fawr	5
Cyfanswm	274

Ymatebwyr fesul grŵp tiwmor

Grŵp Tiwmor	Nifer yr ymatebwyr*
Y fron	68
Colorefrol / Gastroberfeddol Is	65
Yr ysgyfaint	3
Prostad	19
Ymennydd/System Nerfol Ganolog	0
Gynaecolegol	26
Haematolegol	17
Pen a'r Gwddf	14
Sarcoma	1
Croen	4
Gastroberfeddol Uwch	7
Wrolegol	47
Arall	3

* Ni fydd y ffigurau hyn yn cyfateb i'r rhifiadur ar gyfer pob cwestiwn yn adran 'cymariaethau fesul grŵp tiwmor' yr adroddiad hwn am nad ymatebodd pob ymatebwr bob cwestiwn.

Oedran a Rhyw

Gofynnodd yr arolwg i'r ymatebwyr nodi eu blwyddyn geni. Cyfunwyd y wybodaeth hon i chwe band oedran. Ni nododd 31 o ymatebwyr eu rhyw a/neu eu hoedran. Roedd dosbarthiad oedran a rhyw y Bwrdd fel a ganlyn:

	16-25	26-35	36-50	51-65	66-75	76+	Coll	Cyfanswm
Dynion	0	0	5	25	30	38	12	110
Merched	2	4	14	45	47	30	8	150
Coll	0	0	0	0	3	0	11	14
Cyfanswm	2	4	19	70	80	68	31	274

Adrannau yn yr Adroddiad hwn

Mae tair adran yn yr adroddiad hwn, fel a ganlyn:


1. Canlyniadau cyffredinol ar lefel y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth ar gyfer pob grŵp tiwmor: o gymharu â chanlyniadau Cymru gyfan, mae'r adran hon yn dangos y canlyniadau ar gyfer pob grŵp tiwmor. Caiff y canlyniadau eu harddangos ar siartiau sy'n dangos yr amrediad sgoriau ar gyfer pob cwestiwn, o'r sgôr gwaethaf a gyflawnwyd gan Fwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth i'r sgôr uchaf a gyflawnwyd ar gyfer y cwestiwn hwnnw gan Fwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth. Nodir y sgôr ar gyfer y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth hon fel cylch du a nodir y cyfwng hyder (sef y swm o ansicrwydd sy'n gysylltiedig â sgôr y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth ar gyfer y cwestiwn hwnnw) fel llinell ddu. Yn y tabl islaw'r siartiau, caiff sgôr y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth ei chymharu â sgôr Cymru gyfan ar gyfer pob grŵp tiwmor ar gyfer pob cwestiwn; a nodir colofnau nifer yr ymatebwyr ar gyfer pob Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth ar gyfer pob cwestiwn a ph'un a yw'r Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth yn sylweddol wahanol yn ystadegol i sgôr Cymru gyfan.

2. Canlyniadau ar lefel ysbytai o fewn y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth: nodir y canlyniadau ar gyfer pob ysbyty lle ceir digon o ymatebwyr, gyda'r ysbyty yn cael ei enwi yn y golofn uwchben y tablau; nodir y sgôr canran ar gyfer pob ysbyty ar gyfer pob cwestiwn yn y tabl, gan ddefnyddio'r data pob grŵp tiwmor. Lle y bydd gan ysbyty sgôr sy'n sylweddol wahanol yn ystadegol i sgôr Cymru gyfan ar gyfer y cwestiwn hwnnw, fe'i hamlygir mewn melyn. Ni chofnodir data ar gyfer ysbytai â nifer fach o ymatebwyr (ysbytai lleol llai fel arfer).

3. Canlyniadau grwpiau tiwmor o fewn y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth: dengys y tablau y canlyniadau ar gyfer pob grŵp tiwmor ar gyfer pob cwestiwn ar lefel y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth. Noda colofn ar wahân ffigur Cymru gyfan ar gyfer pob grŵp tiwmor ar gyfer pob cwestiwn. **Caiff celloedd sy'n cynrychioli grwpiau tiwmor lle cafwyd llai nag 20 o ymatebwyr eu gadael yn wag.**


Canlyniadau'r Bwrdd

Gweld eich meddyg teulu



Cwestiwn		Sgôr y Bwrdd hwn yn 2013	Sgôr Cymru Gyfan yn 2013	Nifer yr ymatebwyr ar gyfer y Bwrdd hwn	Sylweddol Wahanol i Gymru Gyfan
C1	Gwelais fy meddyg teulu unwaith / ddwy waith cyn cael gwybod bod angen i fi fynd i'r ysbyty	75%	73%	191	
C2	Cafodd y claf apwyntiad cyn gynted ag yr oedd o'r farn bod hynny'n hanfodol	73%	78%	267	
C4	Gwellodd iechyd y claf neu arhosodd tua'r un peth yn ystod y cyfnod o amser yr oedd yn aros	80%	79%	265	


Profion diagnostig



7A6


Cwestiwn		Sgôr y Bwrdd hwn yn 2013	Sgôr Cymru Gyfan yn 2013	Nifer yr ymatebwr ar gyfer y Bwrdd hwn	Sylweddol Wahanol i Gymru Gyfan
C6	Esboniodd y staff yn gynhwysfawr bwrpas y prawf/profion	78%	83%	232	
C7	Esboniodd y staff yn gynhwysfawr beth fyddai'n digwydd yn ystod y prawf	86%	87%	237	
C8	Cefais wybodaeth ysgrifenedig hawdd ei deall am y prawf	79%	84%	176	
C9	Cefais esboniad cynhwysfawr o ganlyniadau'r prawf mewn ffordd ddealladwy	76%	79%	241	

Dod o hyd i'r hyn oedd yn bod arnoch chi



Cwestiwn		Sgôr y Bwrdd hwn yn 2013	Sgôr Cymru Gyfan yn 2013	Nifer yr ymatebwyr ar gyfer y Bwrdd hwn	Sylweddol Wahanol i Gymru Gyfan
C11	Dywedwyd wrth y claf am ddod â ffrind gydag ef pan gafodd wybod am y tro cyntaf ei fod yn dioddef o ganser	68%	70%	223	
C12	Roedd y claf yn teimlo ei fod wedi cael gwybod ei fod yn dioddef o ganser mewn ffordd sensitif	86%	84%	271	
C13	Roedd y claf yn deall yn gyfan gwbl yr esboniad o ran beth yn union oedd yn bod arno	73%	75%	271	
C14	Rhoddwyd gwybodaeth ysgrifenedig hawdd i'w deall i'r claf am y math perthnasol o ganser	62%	62%	234	

Penderfynu ar y driniaeth orau i chi




Cwestiwn		Sgôr y Bwrdd hwn yn 2013	Sgôr Cymru Gyfan yn 2013	Nifer yr ymatebwyr ar gyfer y Bwrdd hwn	Sylweddol Wahanol i Gymru Gyfan
C15	Rhoddwyd dewis o wahanol fathau o driniaeth i'r claf	85%	84%	100	
C16	Yn ddiamed, rhoddwyd ystyriaeth i safbwyntiau'r claf pan roedd y meddygon a'r nyrsys yn trafod triniaethau	75%	71%	224	
C17	Esboniwyd sgil-ffeithiau posibl mewn ffordd ddealladwy	73%	75%	233	
C18	Rhoddwyd gwybodaeth ysgrifenedig hawdd i'w deall i'r claf am sgil-ffeithiau	77%	82%	209	
C19	Yn ddiamed, roddwyd gwybod i'r claf am unrhyw sgil-ffeithiau o'r driniaeth a allai effeithio arno yn y dyfodol	58%	55%	197	

Arolwg o Brofiad Cleifion Canser yng Nghymru 2013
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan


C20	Yn ddiamod, cafodd y claf gyfle i gyfrannu at benderfyniadau am ei ofal a'i driniaeth	73%	71%	240	
-----	---	-----	-----	-----	--

Nyrs Glinigol Arbenigol




Cwestiwn		Sgôr y Bwrdd hwn yn 2013	Sgôr Cymru Gyfan yn 2013	Nifer yr ymatebwyr ar gyfer y Bwrdd hwn	Sylweddol Wahanol i Gymru Gyfan
C21	Dywedwyd enw'r Nyrs Glinigol Arbenigol a fyddai'n gofalu amdano wrth y claf	91%	88%	211	
C22	Mae'r claf yn ei chael hi'n hawdd cysylltu â'r Nyrs Glinigol Arbenigol	78%	78%	176	
C23	Heb os, gwrandawodd y Nyrs Glinigol Arbenigol yn astud y tro diwethaf y siaradodd y claf â hi/ag ef	91%	92%	186	
C24	Cael atebion y gellir eu deall i gwestiynau pwysig bob tro neu'r rhan fwyaf o weithiau	90%	92%	173	

Gweithiwr Allweddol




Cwestiwn		Sgôr y Bwrdd hwn yn 2013	Sgôr Cymru Gyfan yn 2013	Nifer yr ymatebwyr ar gyfer y Bwrdd hwn	Sylweddol Wahanol i Gymru Gyfan
C25	Dywedwyd enw'r Gweithiwr Allweddol a fyddai'n gofalu amdano wrth y claf	75%	66%	217	*
C26	Mae'r claf yn ei chael hi'n hawdd cysylltu â'i Weithiwr Allweddol	88%	82%	60	
C27	Heb os, gwrandawodd y gweithiwr allweddol yn astud y tro diwethaf y siaradwyd ag ef	90%	92%	69	
C28	Cael atebion y gellir eu deall i gwestiynau pwysig bob tro neu'r rhan fwyaf o weithiau	84%	91%	62	
C29	Cafodd y claf gyfle i drafod ei anghenion a'i bryderon er mwyn llunio cynllun gofal	61%	58%	209	
C30	Cynigiwyd cynllun gofal ysgrifenedig i'r claf	22%	22%	203	

Cymorth i bobl sy'n dioddef o ganser




Cwestiwn		Sgôr y Bwrdd hwn yn 2013	Sgôr Cymru Gyfan yn 2013	Nifer yr ymatebwyr ar gyfer y Bwrdd hwn	Sylweddol Wahanol i Gymru Gyfan
C31	Rhoddodd staff yr ysbyty wybodaeth am gefnogaeth emosiynol	63%	69%	168	
C32	Rhoddodd staff yr ysbyty wybodaeth am yr effaith y bydd y cancer o bosibl yn ei chael ar fywyd gwaith / addysg	71%	68%	111	
C33	Rhoddodd staff yr ysbyty wybodaeth am gael cymorth ariannol	31%	44%	113	*

Ymchwil cancer




Cwestiwn		Sgôr y Bwrdd hwn yn 2013	Sgôr Cymru Gyfan yn 2013	Nifer yr ymatebwr ar gyfer y Bwrdd hwn	Sylweddol Wahanol i Gymru Gyfan
C34	Trafodwyd cymryd rhan mewn ymchwil cancer gyda'r claf	25%	29%	236	
C35	Mae'r claf wedi cymryd rhan mewn ymchwil cancer	70%	64%	60	

Llawdriniaethau



Cwestiwn		Sgôr y Bwrdd hwn yn 2013	Sgôr Cymru Gyfan yn 2013	Nifer yr ymatebwyr ar gyfer y Bwrdd hwn	Sylweddol Wahanol i Gymru Gyfan
C37	Rhoddodd aelod o staff esboniad cynhwysfawr o'r hyn fyddai'n digwydd	86%	87%	227	
C38	Rhoddwyd gwybodaeth ysgrifenedig hawdd i'w deall i'r claf am y llawdriniaeth	74%	70%	187	
C39	Esboniodd aelod o staff sut aeth y llawdriniaeth mewn ffordd ddealladwy	78%	78%	226	


Meddygon yr Ysbyty



7A6


Cwestiwn		Sgôr y Bwrdd hwn yn 2013	Sgôr Cymru Gyfan yn 2013	Nifer yr ymatebwyr ar gyfer y Bwrdd hwn	Sylweddol Wahanol i Gymru Gyfan
C41	Y claf yn gallu siarad â Meddyg mor aml ag roedd yn dymuno gwneud hynny	51%	54%	213	
C42	Cael atebion dealladwy i gwestiynau pwysig bob tro / y rhan fwyaf o weithiau	79%	80%	205	
C43	Roedd gan y claf ffydd ym mhob Meddyg a oedd yn ei drin ac roedd yn ymddiried ynddynt	91%	87%	239	*
C44	Nid oedd y meddygon yn siarad o flaen y claf fel petai ddim yno o gwbl	88%	84%	239	
C45	Yn ddiamod, cafodd teulu'r claf gyfle i siarad â Meddyg	58%	61%	194	

Nyrsys ar y ward



Cwestiwn		Sgôr y Bwrdd hwn yn 2013	Sgôr Cymru Gyfan yn 2013	Nifer yr ymatebwr ar gyfer y Bwrdd hwn	Sylweddol Wahanol i Gymru Gyfan
C46	Cael atebion dealladwy i gwestiynau pwysig bob tro / y rhan fwyaf o weithiau	70%	75%	195	
C47	Roedd gan y claf ffydd yn yr holl nyrsys ar y ward ac roedd yn ymddiried ynddynt	69%	73%	240	
C48	Nid oedd y nyrsys yn siarad o flaen y claf fel petai ddim yno o gwbl	87%	86%	240	
C49	Roedd digon o nyrsys ar ddyletswydd ar bob achlysur / bron ar bob achlysur	54%	60%	239	*

Gofal a thriniaeth ysbyty (rhan 1 o 2)




	Cwestiwn	Sgôr y Bwrdd hwn yn 2013	Sgôr Cymru Gyfan yn 2013	Nifer yr ymatebwyr ar gyfer y Bwrdd hwn	Sylweddol Wahanol i Gymru Gyfan
C50	Nid oedd y claf yn teimlo na wnaeth staff yr ysbyty rannu pethau penodol gydag ef yn fwriadol	91%	89%	235	
C51	Nid oedd y claf yn teimlo byth bod gwybodaeth wahanol wedi'i rhoi iddynt	86%	84%	234	
C52	Gofynnodd pob aelod o staff i'r claf pa enw roedd yn ffafrio	58%	62%	235	
C53	Rhoddwyd digon o breifatrwydd ar bob achlysur wrth drafod y cyflwr / triniaeth	80%	83%	233	
C54	Rhoddwyd digon o breifatrwydd ar bob achlysur wrth archwilio neu drin y claf	89%	94%	233	*

Arolwg o Brofiad Cleifion Canser yng Nghymru 2013
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

C55	Roedd hi'n bosibl i'r claf drafod unrhyw bryderon neu ofnau gyda staff yn ystod yr ymweliad	58%	63%	182	
-----	---	-----	-----	-----	--

Gofal a thriniaeth ysbyty (rhan 2 o 2)




Cwestiwn	Sgôr y Bwrdd hwn yn 2013	Sgôr Cymru Gyfan yn 2013	Nifer yr ymatebwyr ar gyfer y Bwrdd hwn	Sylweddol Wahanol i Gymru Gyfan
C56 Gwnaeth staff yr ysbyty bob ymdrech i reoli poen ar bob achlysur	85%	86%	203	
C57 Cefais fy nhrin gyda pharch ac urddas gan staff ar bob achlysur	81%	85%	235	
C58 Cefais wybodaeth ysgrifenedig glir ynghylch yr hyn y dylwn ei wneud neu'r hyn na ddylwn ei wneud ar ôl gadael yr ysbyty	82%	81%	204	
C59 Dywedodd staff wrth y claf pwy y dylai gysylltu ag ef os oedd yn poeni ar ôl gadael yr ysbyty	90%	92%	226	

Arolwg o Brofiad Cleifion Canser yng Nghymru 2013
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan


C60	Yn ddiamod, rhoddwyd yr holl wybodaeth angenrheidiol yr oedd ei hangen ar y teulu i ofalu am y claf yn ei gartref	61%	57%	194	
-----	---	-----	-----	-----	--

Trefnu cymorth cartref



Cwestiwn		Sgôr y Bwrdd hwn yn 2013	Sgôr Cymru Gyfan yn 2013	Nifer yr ymatebwyr ar gyfer y Bwrdd hwn	Sylweddol Wahanol i Gymru Gyfan
C61	Yn ddiamod, rhoddwyd digon o ofal a chymorth gan y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol i'r claf	61%	59%	153	


Gofal ysbyty fel claf dydd / claf allanol



7A6


Cwestiwn		Sgôr y Bwrdd hwn yn 2013	Sgôr Cymru Gyfan yn 2013	Nifer yr ymatebwyr ar gyfer y Bwrdd hwn	Sylweddol Wahanol i Gymru Gyfan
C62	Yn ddiamod, gwnaeth y staff pob ymdrech i reoli sgil-ffeithiau'r radiotherapi	82%	79%	51	
C63	Yn ddiamod, gwnaeth y staff pob ymdrech i reoli sgil-ffeithiau'r cemotherapi	87%	83%	63	
C64	Yn ddiamod, gwnaeth y staff pob ymdrech i helpu i reoli poen	79%	81%	131	
C65	Yn ddiamod, rhoddodd staff yr ysbyty ddigon o gymorth emosiynol	67%	72%	150	

Apwyntiadau cleifion allanol gyda Meddygon




Cwestiwn		Sgôr y Bwrdd hwn yn 2013	Sgôr Cymru Gyfan yn 2013	Nifer yr ymatebwyr ar gyfer y Bwrdd hwn	Sylweddol Wahanol i Gymru Gyfan
C67	Roedd gan y Meddyg y nodiadau a'r ddogfennaeth arall gywir	97%	96%	228	

Gofal gan eich meddygfa



Cwestiwn		Sgôr y Bwrdd hwn yn 2013	Sgôr Cymru Gyfan yn 2013	Nifer yr ymatebwyr ar gyfer y Bwrdd hwn	Sylweddol Wahanol i Gymru Gyfan
C68	Cafodd y meddyg teulu ddigon o wybodaeth am gyflwr y claf a'r driniaeth a gafodd	94%	92%	186	
C69	Yn ddiamod, gwnaeth staff y feddygfa bob ymdrech i gefnogi'r claf	66%	67%	146	

Eich gofal GIG cyffredinol



Cwestiwn		Sgôr y Bwrdd hwn yn 2013	Sgôr Cymru Gyfan yn 2013	Nifer yr ymatebwyr ar gyfer y Bwrdd hwn	Sylweddol Wahanol i Gymru Gyfan
C70	Roedd staff yr ysbyty a staff yn y gymuned yn cydweithio'n effeithiol ar bob achlysur	67%	65%	244	
C72	Cefais ddigon o wybodaeth ynghylch fy nghyflwr a'r driniaeth	84%	86%	222	
C73	Nid oedd y claf yn teimlo fel petai wedi cael ei drin fel 'set o symptomau cancer'	82%	81%	250	
C74	Roedd y claf o'r farn bod y gofal yn ardderchog / da iawn	84%	89%	258	

Cymariaethau fesul Ysbyty – Data Pob Canser

Mae'r tablau canlynol yn dangos y data pob cancer (pob grŵp tiwmor) ar gyfer pob Ysbyty sy'n rhan o'r Bwrdd a'r sgoriau canran cenedlaethol ar gyfer y set data pob cancer. **Lle mae cell yn y tabl yn wag, mae hyn yn nodi bod nifer y cleifion yn y grŵp hwnnw yn llai nag 20 ac yn rhy fach i'w arddangos.** Nodir nifer yr ymatebwyr fesul Ysbyty ar ddechrau'r adroddiad hwn. Amlygir sgoriau ysbyty sy'n sylweddol wahanol yn ystadegol i sgôr Cymru gyfan mewn melyn.

Gweld eich meddyg teulu

Cwestiwn	Ysbyty Nevill Hal	Ysbyty Brenhinol Gwent	Cymru Gyfan Pob Canser
C1 Gwelais fy meddyg teulu unwaith / ddwy waith cyn cael gwybod bod angen i fi fynd i'r ysbyty	77%	75%	73%
C2 Cafodd y claf apwyntiad cyn gynted ag yr oedd o'r farn bod hynny'n hanfodol	75%	73%	78%
